# Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

| | |
|---|---|
| **Meeting Venue:** | **Ystafell Gynhadledd 4B - Ty Hywel** |
| **Meeting date:** | **Dydd Llun, 9 Mehefin 2014** |
| **Meeting time:** | **11.00 - 13.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Yn bresennol:**

**Aelodau**
**Eric Gregory (Cadeirydd)**
**Keith Baldwin**
**Hugh Widdis**

**Swyddogion**
**Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc, a'r Swyddog Cyfrifyddu**
**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Cynulliad a TGCh**
**Virginia Hawkins, Clerc y Pwyllgor**
**Kathryn Hughes, Rheolwr Risg**
**Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol**
**Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid**
**Vicky Davies, TIAA**
**Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Buddug Saer, Dirprwy Glerc y Pwyllgor**

**Eitem 8 – Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau buddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod ar 7 Ebrill, y camau i'w cymryd a'r materion sy'n codi

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion a rhoddodd swyddogion y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sydd heb eu cymryd:

- *Effaith argymhellion Archwilio Mewnol (cam gweithredu 3.6)* – **Cadarnhaodd Gareth fod y wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion hyn a'u canlyniadau wedi'i hamlygu yn ei adroddiad blynyddol, fel ym mhapur 3b a drafodwyd o dan eitem 3.**

- *Blaenoriaethau strategol wedi'u diweddaru (cam gweithredu 3.15)* – **Cytunodd Kathryn i anfon fersiwn ddiweddaraf dogfen blaenoriaethau strategol Comisiwn y Cynulliad mewn e-bost at aelodau'r Pwyllgor.**

- *Datganiad Llywodraethu (cam gweithredu 6.2)* – **Cadarnhaodd Virginia fod yr holl sylwadau wedi eu hymgorffori yn y Datganiad Llywodraethu a oedd yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol drafft i'w ystyried yn ystod y cyfarfod hwn o dan eitem 6.**

## 3 Adroddiad Gweithgarwch Archwilio Mewnol

**3.1 Rhoddodd Gareth Watts y wybodaeth ddiweddaraf am raglen waith 2014-15. Cafodd manylion y gwaith yn 2013-14 eu nodi yn ei adroddiad blynyddol.**

**3.2 Ers mis Ebrill 2014, eglurodd ei fod wedi parhau i weithio gyda Dave Tosh ac Alison Rutherford ar yr adolygiad o Lywodraethu Gwybodaeth. Mewn ymateb i arolwg staff diweddar, roedd yn cynnal archwiliad o Weithdrefnau Recriwtio ac yn anelu at gynhyrchu adroddiad cyn toriad yr haf. Ar y pryd, roedd TIAA yn cwmpasu'r archwiliad o'r Fframwaith Rheoli Risg.**

**3.3 Hefyd, dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod wedi cwblhau gwaith dilynol ar y Cynllun Dirprwyo Ariannol a siop Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai'n adrodd yn ôl i Gomisiwn y Cynulliad ar 18 Mehefin yn dilyn adolygiad o'u heffeithiolrwydd.**

**3.4 Yn dilyn trafodaeth fer ynghylch Parhad Busnes, anogodd y Pwyllgor swyddogion i gyflymu'r gwaith hwn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf amdano erbyn mis Tachwedd 2014.**

**3.5 Eglurodd Dave Tosh fod cyfarfod llawn ffug wedi cael ei gynnal dros doriad y Pasg a oedd yn gyfle penodol i brofi gweithdrefnau pleidleisio â llaw. Mae meysydd gwasanaeth wedi drafftio cynlluniau, ond nid ydynt wedi'u profi a'u mireinio eto. Hefyd, mae'n bosibl y bydd gwaith yn cael ei ohirio dros doriad yr haf oherwydd bod llawer o'r meysydd gwasanaeth yn cymryd eu gwyliau blynyddol yn ystod y cyfnod hwn.**

**3.6 Cyflwynodd Gareth Watts ei adroddiad blynyddol o waith yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14. Cafodd y rhaglen waith ei chyflawni'n llwyddiannus, er gwaethaf y newidiadau i archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys Pennaeth Archwilio Mewnol newydd a chontractwr allanol newydd.**

**3.7 Bu aelodau'r Pwyllgor yn cwestiynu'r diffiniad o'r farn 'Resymol'. Eglurodd Gareth fod y sgôr yn un cymedrol, ac mai dyma'r sgôr uchaf posibl o ystyried cwmpas yr archwiliadau.**

**3.8 Cadarnhaodd ei fod yn bwriadu cynnal rhagor o archwiliadau cwmpas llawn eleni a allai, o bosibl, roi lefel uwch o sicrwydd.**

**3.9 Cafodd maes Llywodraethu Gwybodaeth ei grybwyll gan Dave Tosh fel enghraifft o welliant mawr yn y 2-3 blynedd diwethaf. O'r 12 argymhelliad gwreiddiol, mae 4 yn parhau i fod heb eu gweithredu yn 2013-14. Roedd rheolaethau tynnach, polisïau clir a strwythurau bellach yn eu lle. Roedd yn obeithiol y byddai'r sefyllfa well hon yn cael ei hadlewyrchu yn y wybodaeth ddiweddaraf ym mis Tachwedd.**

**3.10 Hefyd, bu aelodau'r Pwyllgor yn cwestiynu sut y cafodd yr adolygiadau archwilio mewnol penodol eu dethol. Cadarnhaodd y swyddogion fod archwiliadau mewnol, yn ôl eu natur, wedi canolbwyntio ar feysydd o wendid er mwyn i welliannau gael eu nodi. Byddai gwaith Gareth yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd hyn.**

**3.11 Cytunodd y Cadeirydd fod hwn yn ddull adeiladol, a bod y Bwrdd Rheoli yn cymryd yr argymhellion o ddifrif ac yn gweithredu mewn ffordd gadarnhaol i wella'r swyddogaethau o fewn y sefydliad.**

**3.12 Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ar Dwyll ei gwblhau ganol mis Mai ac, ar adeg ysgrifennu'r cofnodion hyn, roedd yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa.**

**3.13 Roedd llawer o waith cadarnhaol wedi'i wneud ers i'r maes hwn gael ei archwilio ym mis Tachwedd 2011, yn enwedig mynediad at bolisïau a hyfforddiant gan y Pennaeth Caffael a'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi.**

**3.14 Roedd Gareth yn ystyried cynlluniau Ymateb i Dwyll ar draws y sector cyhoeddus a byddai'n gweithio gyda Nicola i ddiweddaru dulliau'r Cynulliad. Cytunodd y ddau fod angen i gynllun diwygiedig fod yn ei le erbyn mis Medi 2014.**

**3.15 Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o broses wirio lem o ran caffael ar gyflenwyr newydd a gofynnodd a ellir defnyddio'r broses hon gyda chyflenwyr presennol i wella prosesau'r Gwasanaethau Ariannol ymhellach. Byddai Nicola yn trafod hyn gyda Jan Koziel, Pennaeth Caffael.**

**Camau Gweithredu**

- **Dave Tosh i geisio cyflymu'r gwaith Parhad Busnes a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.**
- **Gareth a Nicola i gynhyrchu Cynllun Ymateb i Dwyll diwygiedig erbyn mis Medi 2014.**
- **Nicola i drafod prosesau gyda'r Adran Gaffael i gadarnhau pa broses wirio ariannol y mae'n ei defnyddio ar gontractau newydd y gallai'r Gwasanaethau Ariannol ei defnyddio ar gyfer cyflenwyr presennol.**

## 4 Yr Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddaraf

**4.1 Cyflwynodd Vicky Davies yr eitem hon a oedd yn adroddiad ar fudo data'r gyflogres yn sgil y prosiect Adnoddau Dynol a'r Gyflogres. Roedd hwn yn adolygiad cwmpas cyfyngedig, gyda sampl o 30 o gofnodion staff wedi'u gwirio.**

**4.2 Yn dilyn asesiad gan TIAA, nodwyd fod y Gyflogres – Mudo Data yn 'rhesymol'. Roedd yr asesiad yn ymwneud â Mudo Data'r Gyflogres yn unig,**

**ac roedd prosiect ehangach y system Adnoddau Dynol a'r Gyflogres newydd wedi'i eithrio. Gwnaethpwyd a derbyniwyd 9 o argymhellion.**

**4.3 Soniodd Dave Tosh, fel aelod o fwrdd prosiect Adnoddau Dynol a'r Gyflogres, am rai materion yn ymwneud â pherthynas y Comisiwn gyda'r cyflenwr a bod yr adnoddau ychwanegol o Gyngor Sir Fynwy yn gweithio'n dda i ddatrys materion sy'n weddill. Roedd camau gweithredu ac adnoddau yn cael eu hailgynllunio a byddai'r Bwrdd Buddsoddi yn adolygu'r cynlluniau diwygiedig.**

**4.4 Gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad dilynol yn yr hydref i amlinellu cynnydd y prosiect.**

**Camau Gweithredu**

- **Mike Snook (Uwch-swyddog Cyfrifol, prosiect Adnoddau Dynol a'r Gyflogres) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Tachwedd.**

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am Archwilio Allanol

**5.1 Cafwyd ymddiheuriad gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) am yr oedi cyn anfon y llythyr ffi archwilio o ganlyniad i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Roedd y cynnydd o 3.8% yn 2013-14 yn amodol ar gymhorthdal cronfa gyfunol, na fyddai'n gymwys i ffi 2014-15. Cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y ffioedd a'r newidiadau mewnol i SAC yn dilyn y ddeddfwriaeth.**

**5.2 Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn gweithio'n agos gyda TIAA a SAC i sicrhau bod y dull gorau yn cael ei fabwysiadu o ran y rhaglen waith archwilio er mwyn cyfyngu costau yn y dyfodol.**

**5.3 Cadarnhaodd SAC ei bod mewn cysylltiad â chydweithwyr yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yr Alban a Gogledd Iwerddon i drafod lefelau priodol o archwilio ar gyfer cyrff seneddol yn y dyfodol.**

**5.4 Cytunodd y Cadeirydd, gyda'r protocolau gwaith eisoes yn eu lle, fod tystiolaeth o berthynas waith gref a dylai hyn helpu i sicrhau y byddai costau'n cael eu cyfyngu.**

**5.5 Cafodd canlyniadau'r Arolwg Effeithiolrwydd eu trafod hefyd. Cafodd y canlyniadau, a oedd, ar y cyfan, yn gadarnhaol, eu cyflwyno i'r Pwyllgor gan Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru.**

**5.6 Cytunodd y Cadeirydd fod hwn yn arolwg calonogol iawn ond bod cyfleoedd i wella.**

**5.7 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n adolygu'r polisïau cyfrifyddu. Hefyd, gofynnwyd fod crynodeb o'r polisi chwythu'r chwiban yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.**

**5.8 I gynyddu eu hymwybyddiaeth o berfformiad a materion a drafodir o fewn y sefydliad, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor fod adroddiadau'r Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) a chofnodion Comisiwn y Cynulliad yn cael eu hanfon at yr aelodau yn rheolaidd.**

5.9 Roeddent hefyd yn cytuno y dylent ystyried dangosydd perfformiad allweddol os nad oedd unrhyw risgiau corfforaethol yn codi a oedd yn ddigon difrifol i haeddu archwiliad manwl. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor bob amser ddeall y dirwedd risg gyffredinol.

5.10 Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor feddwl am ba gamau pellach oedd angen eu cymryd i ymateb i ganlyniadau'r arolwg a pha gamau y dylid eu hadlewyrchu ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

Camau Gweithredu

- Nicola Callow i gadarnhau gyda'r tîm clercio pa bolisïau cyfrifyddu y dylid eu hychwanegu at y Flaenraglen Waith a phryd y dylid gwneud hynny.
- Cytunodd Gareth Watts i roi cyflwyniad i'r broses chwythu'r chwiban yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.
- Kathryn Hughes i sicrhau bod adroddiadau DPA a chofnodion Comisiwn y Cynulliad yn cael eu dosbarthu i aelodau yn rheolaidd.
- Os nad oes unrhyw risgiau corfforaethol i'w trafod, bydd y tîm clercio yn cytuno gyda'r Cadeirydd ar fesur perfformiad corfforaethol i'w drafod yn lle hynny.
- Aelodau'r pwyllgor i gynnig camau i'w cymryd i ymateb i'r Arolwg Effeithiolrwydd.
- Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i drafod yn breifat rheoli cyfathrebu gyda Chomisiwn y Cynulliad.

## 6 Adroddiad blynyddol a chyfrifon

6.0 Cyflwynodd Nicola Callow yr eitem hon a chroesawodd sylwadau ar yr adroddiad blynyddol drwy e-bost. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru ar y safle ar y pryd yn adolygu'r cyfrifon, a byddai set ddiwygiedig yn cael ei hystyried ar gyfer ei chymeradwyo ym mis Gorffennaf.

6.1 Argymhellodd aelodau'r Pwyllgor y newidiadau a ganlyn:

- rhoi mwy o bwyslais ar y tanwariant o £34,000 yn 2013-14, oherwydd ei fod yn gyflawniad cadarnhaol iawn;
- tynnu sylw at gyflawniadau wedi'u mesur yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol;
- symud y prif feysydd o ran deddfwriaeth a newid cyfansoddiadol i flaen yr adroddiad blynyddol a phwysleisio cyflawniadau mwy gafaelgar;
- cynnwys crynodeb o brosiectau'r Rhaglen Newid; a
- chynnwys astudiaeth achos o drydariadau ac ymatebion.

Camau Gweithredu

- Aelodau'r pwyllgor i gyflwyno newidiadau i'r adroddiad blynyddol i Nicola cyn gynted ag y bo modd.

- **Nicola i sicrhau bod aelodau’r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfrifon.**
- **Nicola i gadarnhau nad oes angen i dreuliau aelodau ACARAC gael eu dadansoddi a’u harddangos ar wahân yn y cyfrifon.**

## 7 Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol

7.1 Cyflwynodd Kathryn Hughes yr eitem hon i’r Pwyllgor a chadarnhaodd fod y risgiau corfforaethol wedi cael eu hystyried yng ngoleuni blaenoriaethau strategol newydd y Comisiwn. Nododd fod y risg o ran y cyfryngau cymdeithasol i fod i gael ei thrafod gan y Bwrdd Rheoli ar 23 Mehefin, gyda’r posibilrwydd o godi ei statws i fod yn risg gorfforaethol, a bod Lowri Williams, Pennaeth Adnoddau Dynol, yn cyflwyno cynigion cynllunio capasiti i’r Bwrdd Buddsoddi ar 16 Mehefin.

7.2 Yn dilyn y drafodaeth ar dwyll, bu aelodau’r Pwyllgor yn cwestiynu pam nad oedd twyll ar y gofrestr risg. Cadarnhaodd Kathryn ei bod yn cael ei rheoli ar lefel gwasanaeth. Byddai proses mapio sicrwydd y Comisiwn hefyd yn nodi’r mathau hyn o risg sefydlog pan gaiff ei datblygu’n llawn.

7.3 Cytunodd aelodau’r Pwyllgor y dylai materion presennol hefyd gael eu trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, ac roeddent yn croesawu’r gwaith sy’n cael ei wneud ar fapio sicrwydd y byddai’n cael ei gyflwyno yn yr hydref. Gan gydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn, annogodd y Cadeirydd ei fod yn cael ei gwblhau’n gynnar.

## 8 Archwiliad beirniadol o un risg a nodwyd

8.1 Gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried y risgiau sy’n ymwneud â’r ymateb i benderfyniadau’r Bwrdd Taliadau, y rheolaethau mewn lle a beth arall y gellid ei wneud i liniaru’r risg ymhellach.

8.2 Cyflwynodd Anna Daniel y papur a dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod yn disgwyl y sgôr risg i gynyddu yn y tymor byr wrth i’r Bwrdd edrych ar faterion fel pensiynau a chyflogi aelodau o’r teulu.

8.3 Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar bwysigrwydd cyfathrebu ac arwyddocâd rheoli rhanddeiliaid. Hefyd, roedd yn teimlo ei bod yn hanfodol i bob parti ddeall cylch gwaith ei gilydd. Awgrymodd Hugh Widdis y dylid cysylltu â deddfwrfeydd eraill i weld sut y maent yn delio gyda risgiau tebyg.

## 9 Dulliau gweithio'r Cynulliad o ran rheoli prosiectau a rhaglenni

9.1 Rhoddodd Dave Tosh drosolwg i’r Pwyllgor o ddulliau’r Comisiwn o ran rheoli prosiectau a rhaglenni. Mae lefel y newid ar draws y sefydliad yn golygu bod dull tebyg o ran rhaglenni yn hanfodol.

9.2 Bu rhai o aelodau’r Pwyllgor yn cwestiynu’r pwyslais ar brosiectau TGCh. Cadarnhaodd Dave y byddai’r rhaglen newid yn cael ei hwyluso gan brosiectau TGCh, ac unwaith bod y newidiadau TG ar waith, byddai’r rhaglen yn seiliedig yn fwy ar fusnes. Byddai newid cyfansoddiadol hefyd yn cael ei nodi o fewn y rhaglen.

**9.3 Daeth y Cadeirydd i'r casgliad fod Dave a'i dîm yn symud mewn cyfeiriad cadarnhaol a chynigiodd nifer o enwau pobl a oedd yn gweithio ar broses debyg ar y pryd.**

## 10 Papurau i'w nodi

**10.1 Nododd y Pwyllgor dri achos o ymadael â'r gweithdrefnau caffael arferol.**

**10.2 Byddai'r Flaenraglen Waith yn cael ei thrafod y tu allan i'r cyfarfod.**

**Camau Gweithredu**

- **Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i drosglwyddo unrhyw awgrymiadau ar gyfer y Flaenraglen Waith i'r tîm clercio.**

**11.0 Sesiwn breifat**

**11.1 Roedd Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol, a Vicky Davies o TIAA yn bresennol yn y sesiwn breifat gydag aelodau'r Pwyllgor. Ni chofnodwyd y rhan hon o'r cyfarfod.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 11:00 ar 7 Gorffennaf 2014.**